# Costau gweithredu deddfwriaeth 2025-26

**Rhagfyr 2024**

# Costau gweithredu deddfwriaeth

## Costau Gweithredu Deddfwriaeth a Ddeddfwyd yn 2025-26

*[Cliciwch ar deitl pob Deddf am wybodaeth gefndirol]*

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | |
| Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 | Cymorth i Deuluoedd a Phlant (1085) | Mawrth 2022 i Fawrth 2027 | 643,000 | 1,020,000 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 | Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (0231) | Gorffennaf 2017 i Parhaus | 26,700 | 44,700 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 | Camddefnyddio Sylweddau (1682) | 2019-20 i 2023-24 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 | Cyllidebau Iechyd Eraill (0682) | 2024 i Parhaus | 268,279 | Amherthnasol |
| **Addysg** | | | | |
| Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 | Anghenion Dysgu Ychwanegol (5115)<br>Diwygio Addysg LAEG (4501) | Medi 2021 i Awst 2025 | 0 | 14,615,000 |
| Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 | Cwricwlwm ac Asesu (5162)<br>Cymwysterau Cymru (5166) | Ebrill 2021 i Fedi 2026 | 25,242,000 i 26,472,000 | 30,200,000 |

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|
| | Datblygiad a Chymorth i Athrawon (4880)<br>Diwygio Addysg LAEG (4501) | | | |
| Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 | Polisi a Gweithredu Addysg Drydyddol (4775) | Medi 2022<br>i<br>Ragfyr 2026 | 0 | 345,000 |
| **Yr Economi, Ynni a Chynllunio** | | | | |
| Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 | Partneriaeth Gymdeithasol 1693 | Mehefin – Rhagfyr 2025 | 558,500 | 889,000 |
| **Tai a Llywodraeth Leol** | | | | |
| Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 | Diwygio Trethi Lleol 1550 | Medi 2024-Ebrill 2029 | 3.5m | £3.4m |
| | Cyllid Refeniw Llywodraeth Leol 840 | Medi 2024-Ebrill 2026 | £0.124m | £0.124m |
| Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 | Etholiadau 1463 | 10 mlynedd (2024-25 – 2033-34) | 1.525m | 2.35m |
| **Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** | | | | |

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|
| Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 | Diogelu'r Amgylchedd 2817 | Parhaus o Chwefror 2024 | 1,587,400 | 2,100,000 |
| | Diogelu'r Amgylchedd 2817 (Gosod targedau a monitro ac asesu) | Parhaus o Chwefror 2024 | 6,404,000 – 8,654,000 | 300,000 |
| Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 | Diwygio'r Senedd (MEG CCRA) | Mehefin 2024 – Mai 2026 | 336,800 | 336,800 |
| | BEL Noddi'r DBCC (MEG LGHP) | Mehefin – Rhagfyr 2028 | 38,300* | 0 |
| | Costau Cyfalaf Llety (MEG CSA) | Mehefin 2024-Mai 2026 | 272,600** | 0 |
| | BEL Polisi Etholiadau (MEG LGHP) | Mehefin 2024-Mai 2026 | 60,000*** | 0 |
| Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 | Diogelu'r Amgylchedd 2817 | Mehefin 2023 - Mawrth 2026 | 100,000 | 200,000 |

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

#### Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

1. Daeth y Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022. Mae'n helpu i amddiffyn plant a'u hawliau drwy wahardd defnyddio cosbi corfforol yng Nghymru. Gwna hyn drwy ddiddymu'r amddiffyniad o gosb resymol, a oedd ar gael yn flaenorol i rieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro. Effaith fwriadedig y Ddeddf, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a'r goddefgarwch o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.

   <u>Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26</u>

2. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gwahaniaethau rhwng y gwariant a amcangyfrifir fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (£643k) a'r hyn y bwriadwn ei wario (£980k) yn bennaf oherwydd bod cost flynyddol y cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn fwy nag amcangyfrifon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

#### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

3. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd amrywiol yng Nghymru. Ei phrif ffocws yw creu'r amodau cymdeithasol sy'n annog iechyd da a, lle bo hynny'n bosibl, osgoi niwed i iechyd y gellir ei atal.

4. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn cynnwys:

- strategaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra,
- cyfyngiadau ar ddefnyddio a gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin, gan gynnwys cyflwyno troseddau newydd,
- trwyddedu rhoi 'triniaethau arbennig' yng Nghymru (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio),
- ei gwneud yn drosedd i unrhyw un yng Nghymru wneud twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 18 oed, neu drefnu i hynny ddigwydd,
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd,
- ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol lunio a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol yn eu hardaloedd,
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ac ailddatgan y pŵer statudol presennol iddynt ddarparu toiledau yn eu hardal.

   <u>Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26</u>

5. Gohiriwyd y gwaith ar weithredu'r Ddeddf oherwydd COVID-19 a Brexit, felly mae'r costau wedi llithro i flynyddoedd diweddarach. Rydym hefyd yn bwriadu

cynyddu'r cyllid ar gyfer 2025-26 a'r blynyddoedd i ddod i gefnogi'r gwaith o baratoi sefydliadau ar gyfer y gofynion a gwerthuso. Amcangyfrifir y bydd y costau ar gyfer 2025-26 yn £63,758.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

6. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan bobl benodol ac mae'n ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi am bris is na'r pris hwnnw.

7. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:
   - y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris perthnasol ar gyfer alcohol drwy luosi canran cryfder yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned;
   - pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i bennu'r isafbris uned;
   - sefydlu trefn orfodi o dan arweiniad awdurdod lleol â phwerau i erlyn; a
   - pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol, trosedd o rwystro swyddog awdurdodedig a'r pŵer i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig.

8. Mae'r Ddeddf yn cynnig y byddai'r isafbris uned yn cael ei bennu mewn rheoliadau. Fodd bynnag, at ddiben asesu effeithiau a'r costau a'r manteision cysylltiedig, mae'r Memorandwm Esboniadol yn defnyddio isafbris uned o 50c fel enghraifft.

9. Rhaid gosod adroddiad ar Weithrediad ac Effaith y ddeddfwriaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mlynedd. Wrth lunio'r adroddiad rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Gan fod y ddeddfwriaeth yn cynnwys cymal machlud bydd angen i'r Senedd ystyried a ddylid parhau â'r isafbris uned cyn mis Mawrth 2026.

### Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024

10. Mae Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 yn darparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth ac yn galluogi cyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol a fydd yn gymwys i wasanaethau iechyd GIG Cymru.

11. Bydd y Ddeddf a rheoliadau yn y dyfodol yn ceisio rhoi'r gallu i sefydliadau megis y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu arferion caffael mwy hyblyg wrth gyrchu gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru. Bydd hyn yn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni amcanion strategol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru; yn datblygu cyfundrefn gaffael y gwasanaeth iechyd sy'n diwallu anghenion gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac yn mynd i'r afael ag anghysondeb mewn cyfundrefnau caffael y gwasanaeth iechyd o ganlyniad i newidiadau gan DHSC yn Lloegr. Cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar 5 Chwefror 2024 a bydd y rheoliadau i weithredu Cyfundrefn Dethol Darparwyr newydd Cymru yn cael eu gosod yn y Senedd yn ystod y misoedd nesaf.

Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26

12. Costau cyfle ar gyfer staff y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar sy'n gweithredu'r Ddeddf yw'r ffigurau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, felly nid ydynt yn ychwanegol at y costau rhedeg adrannol.

## Addysg

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

13. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol gyda system ddiwygiedig ar sail Anghenion Dysgu Ychwanegol.

14. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol cyffredinol, statudol ar gyfer yr holl blant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd hyn yn rhoi diwedd ar y gwahaniaeth presennol rhwng ymyriadau sy'n cael eu harwain gan yr ysgol a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac fe fydd yn integreiddio'r trefniadau deddfwriaethol ar wahân sy'n bodoli ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr ôl-16 mewn colegau. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio gwella cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau.

Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26

15. Bydd y cyfnod gweithredu yn para am gyfnod hirach na'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac fe'i hymestynnir tan fis Awst 2025 fel yr amlinellir mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth 2023.

### Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

16. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig i helpu i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith fel rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru.

Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26

17. Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru barhau i gael ei gyflwyno mewn ysgolion uwchradd fesul blwyddyn, cyn cyrraedd Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026, mae'n dod yn fwyfwy anodd nodi costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i Ddeddf 2021 ar wahân i'r rhai sy'n cefnogi'r cwricwlwm a gwaith gwella

ysgolion arall yn ehangach, wrth i'r Cwricwlwm i Gymru wreiddio o fewn arferion dydd i ddydd. Mae cydweithio rhwng ysgolion, er enghraifft, yn darparu sail ar gyfer ystod eang o weithgareddau ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys dylunio'r cwricwlwm, asesu, a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ac ar draws clystyrau ysgolion, ond hefyd waith i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, hunanwerthuso mewn ysgolion a dysgu proffesiynol. Croesewir y dull hwn ac er mwyn parhau i gefnogi cydweithio rhwng ysgolion, rydym yn cynnal eu cyllid uniongyrchol ar lefelau 2024-25 yn 2025-26. Mae swm y Gyllideb o £30.2m er mwyn gweithredu Deddf 2021 yn 2025-26 yn amcangyfrif bras o'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ac yn adlewyrchu ein pwyslais ar gynnal cyllid i ysgolion (ar adeg pan fo amcangyfrifon cost yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn y pandemig yn lleihau).

### Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

18. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sef y corff rheoleiddio annibynnol sy'n gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Bydd addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac uwch, prentisiaethau a chweched dosbarth.

19. Daeth Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), y corff hyd braich newydd sy'n gyfrifol am ariannu a goruchwylio addysg drydyddol ac ymchwil, yn weithredol o fis Awst 2024 ymlaen.

    <u>Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26</u>

20. Diwygiwyd y cynlluniau gweithredu ar ôl i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael ei gyhoeddi. Ni ddaeth Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, yn gwbl weithredol tan fis Awst 2024, yn hytrach nag ym mis Ebrill 2024. Mae rhai costau gweithredu bach mewn perthynas â Medr o hyd, gan gynnwys costau cyfreithiol allanol a'r asesiad gwerthusadwyedd arfaethedig.

## Yr Economi, Ynni a Chynllunio

### Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

21. Mae'r Ddeddf yn cyflawni un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae’r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg, ac ymgymryd â chaffael cyhoeddus sy’n gymdeithasol gyfrifol. Yn gryno, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol parhaol i Gymru, gan ddod â'r llywodraeth, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr ynghyd. Bydd y Ddeddf hefyd yn gosod dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol ar rai cyrff cyhoeddus ac ar Weinidogion Cymru, ac yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwaith teg, ac yn cryfhau caffael cymdeithasol gyfrifol.

Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26

22. Mae'r BEL hwn yn cynnwys costau is-adrannol eraill yn ogystal â'r rhai sy'n deillio'n uniongyrchol o weithredu'r Ddeddf.

## Tai a Llywodraeth Leol

### Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024

23. Bydd y Ddeddf yn gwneud newidiadau mewn cysylltiad â'r system ardrethi annomestig:

- cynnal ailbrisiadau yn fwy aml, sef bob tair blynedd, a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r flwyddyn ailbrisio a'r bwlch rhwng blynyddoedd ailbrisio drwy reoliadau;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn rhoi neu amrywio rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl;
- cryfhau'r amodau cymhwystra ar gyfer rhyddhad elusennol i hereditamentau heb eu meddiannu;
- ehangu'r diffiniad o adeilad newydd at ddibenion cyflwyno hysbysiadau cwblhau gan awdurdodau lleol;
- dileu cyfyngiad amser ar ddyfarnu ac amrywio rhyddhad dewisol gan awdurdodau lleol;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn rhoi neu amrywio esemptiadau neu eu tynnu'n ôl;
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn pennu lluosyddion gwahaniaethol yn seiliedig ar y disgrifiad o hereditament, ei werth ardrethol neu ei leoliad ar y rhestr leol, neu werth ardrethol hereditament ar y rhestr ganolog;
- gosod dyletswydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu mathau penodol o wybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a gwneud darpariaeth ar gyfer y gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig; a
- gwneud darpariaeth ynghylch gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau osgoi trethi artiffisial.

Ac mewn perthynas â system y dreth gyngor, mae'r Ddeddf yn:

- rhoi hyblygrwydd i'r cyfeirbwynt ar gyfer 100% yn y strwythur bandio gael ei newid i fand gwahanol neu ddisgrifiad gwahanol o fand;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â disgowntiau a phersonau i'w diystyru;
- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud un Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol drwy reoliadau a galluogi Gweinidogion Cymru i

ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y ffordd y dylid cymhwyso'r cynllun;
- sefydlu cylch ailbrisio pum mlynedd a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r flwyddyn ailbrisio a'r bwlch rhwng ailbrisiadau, yn ogystal â diwygio dyddiad cyhoeddi rhestrau drafft drwy orchymyn; a
- dileu'r gofyniad presennol i gyhoeddi gwybodaeth mewn papurau newydd a chyflwyno yn ei le ofyniad i gyhoeddi hysbysiad o daliadau'r dreth gyngor ar wefan yr awdurdod lleol a rhoi trefniadau amgen addas ar waith er mwyn sicrhau y gall dinasyddion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfleusterau ar-lein gael gafael ar wybodaeth o'r fath.

## Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024

24. Bydd Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 yn:

- Rhoi swyddogaethau Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a fydd yn golygu bod y Comisiwn yn sefydlu'r Bwrdd i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o gyd-drefnu a gweinyddu etholiadau datganoledig, cydweithio â Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol a chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd democrataidd y wlad.
- Cyflwyno cofrestru etholiadol heb gais, a’r gallu i dreialu’r dulliau mwyaf priodol ar gyfer cyflawni hyn.
- Creu dyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith a fydd â'r nod o wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a llywodraeth leol yn ogystal â chreu a theilwra cynlluniau unigol i ddarparu cymorth ar gyfer nodweddion gwarchodedig.
- Diddymu'r gofyniad i nodi geiriad a fformat penodol yr arolwg i ymgeiswyr llywodraeth leol mewn rheoliadau.
- Creu gofyniad am blatfform gwybodaeth i bleidleiswyr a all gynnal gwybodaeth i ymgeiswyr a phleidleiswyr ynghylch etholiadau'r Senedd ac etholiadau cyffredin prif gynghorau.
- Dal ymgeiswyr ac asiantau yn atebol am wariant tybiannol dim ond pan fyddant yn ei gyfarwyddo, caniatáu i bersonau awdurdodedig wneud taliadau heb ddefnyddio asiant etholiad, a chyfyngu ar bwy all weithredu yn ymgyrchydd trydydd parti mewn etholiadau datganoledig. I gefnogi'r newidiadau hyn i gyllid ymgyrchu, mae'r Bil hefyd yn cynnig galluogi'r Comisiwn Etholiadol i gynnwys y rhain yn ei godau ymarfer.
- Addasu rôl a chylch gwaith Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan gynnwys newidiadau i enw a swyddogaeth ei bwyllgor archwilio, cryfhau trefniadau adolygu etholiadol yn sylweddol, a rhoi swyddogaethau i'r Comisiwn i ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau a gyflawnir gan y Panel ar hyn o bryd. Bydd y Comisiwn hefyd yn gyfrifol am benderfynu ar swm unrhyw daliad ailsefydlu sy'n daladwy gan brif gyngor i gynghorwyr sy'n methu â chael eu hailethol i'r cyngor mewn etholiad cyngor lleol.
- Anghymhwyso cynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu yn Aelodau o'r Senedd a diddymu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer prif gynghorwyr a etholir i'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd a etholir yn Aelodau Seneddol.

Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26

25. Nid oedd rhai costau, fel newidiadau i'r System Rheoli Etholiadol yn hysbys pan ddatblygwyd y Bil, ond mae amcangyfrifon o'r costau hyn wedi'u datblygu ers hynny.

## Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

26. Mae'r Ddeddf:

- yn darparu fframwaith ar gyfer gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol;
- yn diwygio deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol; rheoli ansawdd aer lleol; rheoli mwg; parthau aer glân/parthau allyriadau isel a cherbydau'n segura;
- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer; ac
- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth seinweddau genedlaethol.

Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26

27. Yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed yn Neddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024, mae cyfanswm o £1.85m o refeniw a £250k o gyfalaf wedi'i glustnodi ar gyfer cyflawni camau gweithredu i gefnogi newid ymddygiadol o ran ansawdd aer, cyfathrebu a gweithgaredd cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol, cymorth ar gyfer gweithgareddau yr ymdrinnir â hwy yn ein Cynllun Cyflawni Codi Ymwybyddiaeth a datblygu gwaith sy'n ymwneud â llosgi tanwydd solet domestig a gwrthsegura.

28. Nid yw'r cyllid ar gyfer monitro ac asesu ansawdd aer mewn perthynas â dyletswyddau gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol o dan y Ddeddf wedi'i gytuno eto. Adlewyrchir hyn yn y Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft y Flwyddyn Ariannol 25-26 ar gyfer y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Dyma ddyfyniad ohono: '*... Bydd angen i ni wneud penderfyniadau pwysig sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth ynghylch maint ac amseriad gweithredu, gan gydymffurfio â'r terfynau amser a nodir yn y Ddeddf, peth o'r is-ddeddfwriaeth a gwneud rheoliadau cysylltiedig.'*

## Deddf Senedd Cymru 2024

29. Mae'r Ddeddf yn:

- Cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau.
- Lleihau'r amser rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd o bum mlynedd i bedair blynedd.
- Cynyddu uchafswm y Dirprwy Lywyddion o un i ddau.
- Cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar faint Llywodraeth Cymru i 17 (ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), gyda'r pŵer i gynyddu'r terfyn ymhellach i 18 neu 19.

- Ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, ac i Aelodau o'r Senedd, fod yn preswylio yng Nghymru (drwy anghymhwyso ymgeiswyr ac Aelodau nad ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio yn un o etholaethau'r Senedd).
- Newid system etholiadol y Senedd fel bod pob Aelod yn cael ei ethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig, gyda'r pleidleisiau'n cael eu troi'n seddi drwy fformiwla D'Hondt.
- Newid diben ac enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru; ei alw'n Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC) a rhoi'r swyddogaethau sydd eu hangen arno i sefydlu etholaethau newydd y Senedd ac i gynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd; a rhoi cyfarwyddiadau i'r DBCC eu dilyn wrth adolygu ffiniau.
- Darparu gweithdrefn i alluogi'r Seithfed Senedd i ystyried rhannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd (drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd yn y Seithfed Senedd gynnig sefydlu pwyllgor yn y Senedd i adolygu materion penodedig).
- Darparu ar gyfer adolygu gweithrediad ac effaith y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad 2026 (drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd, ar ôl yr etholiad, gynnig sefydlu pwyllgor yn y Senedd i adolygu materion penodedig).

<u>Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26</u>

30. *Costau'n ymwneud â Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac wedi'u cynnwys yn y BEL Noddi'r DBCC o fewn y MEG LGHP.

31. **Costau cyfalaf ar gyfer llety i Lywodraeth Cymru yn Nhŷ Hywel. Bydd y rhain yn dod o fewn y BEL Gwariant Gweinyddol Cyffredinol Cyfalaf o fewn y MEG CSA. Mae gwaith yn cael ei wneud i bennu'r costau terfynol yn seiliedig ar y cytundeb ar ddyrannu lle.

32. ***Meddalwedd Rheoli Etholiadol (mae'r amcangyfrif o'r gost yn parhau fel yr oedd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae'n cael ei gynnwys yn y costau ar gyfer y BEL Polisi Etholiadau o fewn y MEG LGHP).

## Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

33. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi i ddefnyddiwr yng Nghymru (gan gynnwys yn rhad ac am ddim) gynhyrchion plastig untro diangen sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel.

<u>Anghysondeb rhwng amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau gweithredu a'r symiau a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26</u>

34. Mae cyllid ychwanegol wedi'i neilltuo i ddiweddaru'r deunyddiau cyfathrebu presennol i gynorthwyo cychwyn gwaharddiadau ar gyfer y cynhyrchion sy'n weddill (bagiau siopa plastig, cynhyrchion wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddiadwy a chaeadau polystyren ar gyfer cwpanau a chynwysyddion bwyd) a restrir yn Nhabl 1, Atodlen 1 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023. Bydd gwaith paratoadol yn cael ei

wneud hefyd i gynorthwyo i ddatblygu deunyddiau cyfathrebu ar gyfer y gwaharddiadau sydd i ddod ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.